Pwy sy'n dweud y gwir?

Cysyniadau: **Gonestrwydd, gwerthfawrogiad.**

Amcan: **Y niwed y mae celwydd yn gallu ei wneud.**

Cyfarpar: **Dau gerdyn â'r gair 'GAU' arnynt ac un cerdyn â 'GWIR' arno.**

Cyflwyniad:

● Rydyn ni am chwarae gêm heddiw. Enw'r gêm ydi 'Gwir neu Gau'. Mae tri disgybl wedi paratoi ar ein cyfer. Mae'r tri, yn eu tro, am geisio egluro beth ydi ystyr un gair arbennig. Mae un ystyr yn gywir ond dydi'r ddau arall ddim. Mae'n rhaid i chi wrando'n astud a phenderfynu pa un o'r disgyblion sy'n rhoi disgrifiad cywir o'r gair – Gwir neu Gau! Dyma'r gair, LEFAIN. A dyma'r tri sy'n mynd i geisio egluro ystyr y gair.

Plentyn 1:

Anifail bychan tebyg i'r carlwm ydi LEFAIN. Mae'n byw yn anialwch Sahara. Dim ond yn y nos mae'n ymddangos gan ei bod mor boeth yn ystod y dydd. Yn ystod y dydd bydd yn cysgu yn nyfnderoedd y tywod crasboeth. Ar hyn o bryd, dydi gwyddonwyr ddim yn gwybod rhyw lawer amdano. Ond un peth maen nhw'n sicr ohono ydi bod y LEFAIN yn greadur rhyfedd iawn – dim ond un llygad sydd ganddo. Felly, anifail bychan un llygad ydi'r LEFAIN.

Plentyn 2:

Ffrwyth melys iawn yw LEFAIN. Mae'n cael ei allforio o Dde Affrica. Mae'n gyffredin iawn yn y rhan honno o gyfandir Affrica. Yn ystod tymor yr hydref y bydd y LEFAIN yn cyrraedd yr archfarchnadoedd yng Nghymru. Mae'r un lliw â grawnffrwyth ond mae hwnnw'n chwerw. Mae'r LEFAIN ar y llaw arall yn hynod o felys. Ond y mae'n

ddrud iawn i'w brynu. Dyna pam na welwch chi lawer ohonyn nhw yn y siopau. Felly, ffrwyth melys, drudfawr ydi LEFAIN.

Plentyn 3:
Mae LEFAIN yn cael ei ddefnyddio i wneud bara. Dyma y mae'r pobydd yn ei ddefnyddio i wneud i'r blawd a'r dŵr godi. Erbyn hyn mae gronynnau o LEFAIN ar gael. Bydd y LEFAIN yn cael ei roi yn y toes ac yna ar ôl peth amser bydd y toes yn chwyddo ac yn codi. Felly, sylwedd ydi LEFAIN sy'n achosi i gymysgedd o ddŵr a blawd godi.

Trafodaeth bellach:

● Dyna ni wedi clywed y tri eglurhad. Ond os gwn i p'un sy'n gywir? Ai plentyn 1, neu 2, neu 3 oedd yn gywir? Rhoi cyfle i'r plant ddangos trwy godi eu dwylo. Yna y tri phlentyn i ddangos eu cardiau:
Plentyn 1: GAU;
Plentyn 2: GAU;
Plentyn 3: GWIR.
Ie, burum ydi lefain sy'n cael ei roi yn y toes.
● Tipyn o hwyl oedd y gêm. Ond ydi dweud y gwir yn bwysig?

Dyma enghraifft:
Mae Rhodri wedi gadael ei focs bwyd ar sil y ffenest ar y buarth. Roedd wedi anghofio popeth amdano. Ond pan oedd hi'n nesu at amser cinio cofiodd Rhodri am ei focs bwyd. Cofiodd ei fod wedi gadael y bocs ar sil y ffenest tra oedd o'n chwarae pêl-droed efo gweddill y bechgyn. A dyna lle roedd y bocs yn yr union le roedd o wedi'i adael. Rhyddhad.

Ond pan eisteddodd Rhodri wrth y bwrdd cinio ac agor ei focs dyna lle roedd malwod a phryfed genwair yn symud o gwmpas yr afal, y diod oren a'r papur sgleiniog oedd yn gorchuddio ei frechdanau. Pan ofynnodd yr athrawes pwy oedd yn gyfrifol, doedd neb am gyfaddef.

Meddai Ifan, 'Mi welais i rywun o Blwyddyn 4 yn chwarae efo'r bocs.'

'Na,' meddai Carys, 'mi welais i Ifan a Dei yn y llwyni yn chwilio am rywbeth'.

Rhoddodd Nia ei phig i mewn, 'Nid Ifan a Dei wnaeth, chwilio

am y bêl oedden nhw yn y llwyni. Mi aeth Gwyn i'r toiled yn ystod gwers Mathemateg ac mi fu yno am amser hir iawn. Mi wnaeth Miss Jones ofyn, "Lle mae Gwyn deudwch?"'

Ond pwy wnaeth?

Trafodaeth bellach:

- Pwy sy'n dweud y gwir?

- Sut mae'r athrawes yn teimlo?

- Sut byddech chi'n mynd i ddatrys y broblem?

- Pa mor bwysig ydi dweud y gwir? Os na fyddwch chi'n dweud y gwir oes 'na rai sy'n mynd i gael bai ar gam?

Emyn: Tyrd atom: Canu Clod 393

Dyfyniad o'r Beibl:

Mae geiriau gwir yn aros bob amser,
ond celwydd, mae wedi mynd mewn chwinciad.

Diarhebion 12:19 beibl.net

Munud i feddwl:

Mae 'na dri pheth na fedrwch chi mo'u cuddio: yr haul, y lleuad a dweud y gwir. Bwda

Myfyrdod/Gweddi:

Mae'n rhaid i ni ddweud y gwir bob tro – rhag ofn y bydd rhywun yn cael bai ar gam. Dysgwn ddweud y gwir bob tro. Amen.